# Contract Dysgwyr Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

## 1. Cynnwys


1. Cynnwys
2. Cyflwyniad
3. Statws ac Effaith Gyfreithiol yr Amodau hyn
4. Cyflwyno Rhaglenni a Newidiadau
5. Eich Rhwymedigaethau
6. Rhwymedigaethau Athrofa Padarn Sant
7. Ffioedd a Thalu
8. Polisïau Athrofa Padarn Sant
9. Atebolrwydd Athrofa Padarn Sant am Ddifrod
10. Terfynu Astudiaethau
11. Gofynion ar Derfynu'r Cytundeb hwn
12. Hawl i Ganslo
13. Cyffredinol
14. Diogelu Data
15. Datganiad


## 2. Cyflwyniad

Cydnabyddir bod gan Athrofa Padarn Sant a'i dysgwyr rwymedigaethau i'w gilydd. Diben y ddogfen hon yw nodi'n glir, ac yn fanwl, rwymedigaethau Athrofa Padarn Sant a'i dysgwyr.

Mae gan Athrofa Padarn Sant rwymedigaethau i gyflwyno ei rhaglenni i'r safonau uchaf posibl ac i gefnogi dysgwyr wrth iddynt astudio. Mae Athrofa Padarn Sant hefyd eisiau sicrhau bod profiad dysgwyr o Athrofa Padarn Sant yn gadarnhaol ac yn eu cyfoethogi. Ar yr un pryd, rhaid i Athrofa Padarn Sant gydbwyso buddiannau a hawliau dysgwyr â'n rhwymedigaethau fel rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, sy'n elusen gofrestredig, i reoli adnoddau cyfyngedig yn effeithlon ac yn gyfartal.

Mae rhwymedigaethau'r dysgwyr yn cynnwys ymgymryd ag astudiaethau yn ddiwyd ac yn onest, trin cyd-ddysgwyr a staff â pharch a glynu wrth bolisïau a gweithdrefnau Athrofa Padarn Sant.

Pan fydd dysgwr yn derbyn cynnig lle yn Athrofa Padarn Sant bydd contract cyfreithiol yn bodoli rhwng y dysgwr ac Athrofa Padarn Sant. Mae telerau ac amodau'r contract fel y maent wedi'u nodi isod, ac mae derbyn lle yn ddarostyngedig iddynt yn benodol.

## 3. Statws ac Effaith Gyfreithiol yr Amodau hyn

**3.1** Yr amodau hyn yw'r amodau cofrestru safonol ar gyfer dysgu a ddarperir gan Athrofa Padarn Sant lle ceir contract cyfreithiol fel y'i diffinnir yn y cyflwyniad. Ynghyd â'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt, mae'r amodau cofrestru hyn yn ffurfio'r contract rhwng Athrofa Padarn Sant a'r dysgwr. Mae'n bosibl hefyd y bydd hi'n ofynnol i'r dysgwyr hynny sy'n astudio ar raglen a achredir gan sefydliad arall lunio contract gyda'r sefydliad hwnnw.

**3.2** Ni fydd unrhyw gontract rhwng Athrofa Padarn Sant a'r dysgwr yn bodoli hyd nes i chi roi gwybod yn ffurfiol i Athrofa Padarn Sant eich bod yn derbyn cynnig o le yn ysgrifenedig. Bydd gennych 14 diwrnod o ddyddiad derbyn y cynnig i dynnu eich derbyniad yn ôl.

**3.3** Un o amodau mynediad y Rhaglen yw bod rhaid i chi lenwi a llofnodi Ffurflen Gofrestru, Ffurflen Cydnabyddiaeth o Bolisi TGCH a Ffurflen Ganiatâd Diogelu Data pan fydd Athrofa Padarn Sant yn gofyn i chi wneud hynny.

**3.4** Gall torri unrhyw un o'r amodau hyn arwain at gymryd camau yn eich erbyn o dan Weithdrefnau Disgyblu Athrofa Padarn Sant, a/neu derfynu'r cytundeb hwn.

**3.5** Ni fydd cael eich derbyn ar un rhaglen yn golygu cael eich derbyn yn awtomatig ar rhaglen berthnasol arall. Os ydy dysgwyr wedi eu cofrestru ar fwy nag un rhaglen bydd contract mewn lle ar gyfer pob rhaglen unigol.

## 4. Cyflwyno Rhaglenni a Newidiadau

Bydd Athrofa Padarn Sant yn gwasanaethu ei rhwymedigaethau cytundebol i fyfyrwyr ac yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau o dan gyfraith defnyddwyr fel y'u hamlinellir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud hynny, bydd Athrofa Padarn Sant yn gweithio i ddiogelu buddiant myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau megis newidiadau sylweddol i'r ffordd mae cwrs yn cael ei gyflwyno neu'r cwrs yn cau. Mae gan Athrofa Padarn Sant weithdrefnau ar waith i ymateb i'r amgylchiadau hyn a fydd yn lliniaru'r effaith bosibl ar fyfyrwyr, ac sy'n cydnabod gwahanol anghenion ei gorff myfyrwyr amrywiol.

**4.1** Mae Athrofa Padarn Sant yn cytuno, yn amodol ar yr amodau hyn, i gyflwyno'r Rhaglen gyda gofal a medrusrwydd rhesymol ac i sicrhau bod cyfleusterau cymorth dysgu a gwasanaethau eraill ar gael i chi fel y gwêl yn briodol.

**4.2** Gall Athrofa Padarn Sant wneud newidiadau i'r Rhaglen fel y'i disgrifiwyd yn wreiddiol. Mae'r newidiadau hyn fel arfer yn deillio o newidiadau i amserlenni, newidiadau i fodiwlau dewisol neu newidiadau eraill i'r maes llafur a all ddeillio o drosiant staff, nifer y myfyrwyr sydd eu hangen i ddarparu profiad digonol, neu newidiadau mewn technoleg, gwybodaeth neu ddealltwriaeth, newidiadau i leoliadau neu newidiadau i'r Rheoliadau i fynd i'r afael â gofynion cyrff allanol neu i wneud gwelliannau. Os oes angen gwneud newidiadau o'r fath ac y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith andwyol sylweddol arnoch chi, neu os yw Athrofa Padarn Sant yn terfynu'r Rhaglen neu'n ei chyfuno â rhaglenni astudio eraill, bydd Athrofa Padarn Sant yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi, yn ystyried eich barn ac yn cymryd camau rhesymol i leihau'r effeithiau hynny.

**4.3** Ni fydd Athrofa Padarn Sant yn atebol am unrhyw fethiant neu oedi o ran cyflawni ei rhwymedigaethau os yw'r methiant neu'r oedi o ganlyniad i unrhyw achos y tu hwnt i reolaeth resymol Athrofa Padarn Sant, sy'n cynnwys (heb gyfyngiad) unrhyw gamau gan y Llywodraeth, unrhyw weithred neu hepgor trydydd parti sy'n darparu neu'n ariannu'r rhaglen yn gyfan gwbl neu'n rhannol, aflonyddwch gwleidyddol, tân, llifogydd, rhyfel, streic neu anghydfod llafur arall, salwch staff, pryder iechyd y cyhoedd, amodau tywydd eithafol, trychineb naturiol neu weithred Duw.

**4.4** Bydd hawl gan Athrofa Padarn Sant i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith trwy roi rhybudd ysgrifenedig i chi o dan yr amgylchiadau canlynol:

**4.4.1** Os bydd eich amgylchiadau yn newid ar ôl i chi dderbyn cynnig, neu os bydd Athrofa Padarn Sant yn dod yn ymwybodol o wybodaeth yn ymwneud â chi

nad oedd yn hysbys iddi o'r blaen (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth am euogfarnau neu weithgareddau troseddol, yn amodol ar Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974) sydd, ym marn resymol Athrofa Padarn Sant, yn ei gwneud hi'n amhriodol i chi astudio ar y Rhaglen;

neu

**4.4.2** Os nad ydych chi, ym marn resymol Athrofa Padarn Sant, wedi darparu'r holl wybodaeth berthnasol i Athrofa Padarn Sant neu os ydych chi wedi darparu gwybodaeth nad yw'n gyflawn, yn ddilys ac yn gywir ym mhob manylyn perthnasol.

## 5. Eich Rhwymedigaethau

Rydych chi'n cytuno i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan yr amodau hyn a'r canlynol:

**5.1** Eich bod wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i wneud dewis cytbwys o Raglen ac y byddwch chi wedi ymgymryd ag unrhyw waith darllen rhagarweiniol neu waith paratoi academaidd arall y gofynnwyd i chi ei wneud erbyn dechrau'r Rhaglen.

**5.2** Astudio'n ddiwyd a mynychu'n llawn ac yn brydlon a chymryd rhan yn briodol mewn darlithoedd, cyrsiau, dosbarthiadau, seminarau, tiwtorialau, lleoliadau a gweithgareddau eraill sy'n rhan o'r Rhaglen yn ôl y gofyn (yn amodol ar absenoldeb a awdurdodwyd yn unol â'r gweithdrefnau sy'n gymwys i'r Rhaglen), ac yn cytuno i ymgymryd â'r holl astudiaethau ychwanegol a gweithgareddau eraill a all fod yn angenrheidiol i ddal i fyny ar waith a gollwyd, ac i fynychu'r holl weithgareddau disgwyliedig eraill yn Athrofa Padarn Sant.

**5.3** Cyflawni holl ofynion academaidd y Rhaglen yn brydlon ac yn unol ag amodau a osodwyd gan Athrofa Padarn Sant, gan gynnwys cyflwyno aseiniadau ac ymatal rhag cyflawni llên-ladrad neu gamymddygiad academaidd arall.

**5.4** Cyflawni unrhyw weithgarwch y mae'n ofynnol i chi ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni gofynion anacademaidd eich rhaglen, gan ymddwyn mewn ffordd briodol a dangos parch bob amser i staff, dysgwyr eraill a'r cyhoedd.

**5.5** Talu'r holl ffioedd ac arian arall sy'n ddyledus, erbyn y dyddiadau a bennir gan Athrofa Padarn Sant, oni bai bod awdurdodau'r Sefydliad priodol wedi cytuno fel arall.

**5.6** Darparu i Athrofa Padarn Sant enw a manylion cyswllt rydych yn fodlon i Athrofa Padarn Sant eu defnyddio yn ôl ei disgresiwn a heb gyfeiriad pellach atoch chi mewn sefyllfa mae Athrofa Padarn Sant yn ystyried ei bod yn argyfwng.

**5.7** Cydymffurfio ag unrhyw safonau a gofynion cyfreithiol neu broffesiynol sy'n berthnasol i chi neu i'r Rhaglen; gan gynnwys hunan-ddatganiad o unrhyw rybuddion a/neu euogfarnau ac unrhyw resymau neu amgylchiadau eraill a all eich atal rhag gweithio gyda'r rhai sy'n agored i niwed, neu effeithio ar eich gallu i wneud hynny, a hysbysu Athrofa Padarn Sant ar unwaith os bydd eich amgylchiadau'n newid; unrhyw ofyniad i ddarparu Tystysgrif Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gafwyd trwy Athrofa Padarn Sant, tanysgrifio i fod yn aelod o Wasanaeth Diweddaru neu gynllun monitro'r DBS (neu unrhyw newid rheoleiddiol neu ddiwygiad ohoni) ac unrhyw ofyniad i gael ei chofrestru dros dro gyda'r corff Proffesiynol, Rheoliadol neu Statudol priodol o bryd i'w gilydd fel sy'n briodol.

**5.8** Rhoi caniatâd penodol i Athrofa Padarn Sant wirio, dilysu neu gyfathrebu ag unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth, asiantaeth neu gorff tebyg, neu gyflogwr neu noddwr arall, unrhyw ddata personol rydych chi wedi'i ddarparu ar unrhyw adeg yn ystod eich cais ac i gefnogi eich cais i gael eich derbyn i Athrofa Padarn Sant, ac i barhau i astudio yno.

**5.9** Gydol eich amser fel dysgwr yn Athrofa Padarn Sant, gweithredu yn unol ag unrhyw geisiadau neu ofynion rhesymol a roddwyd i chi o bryd i'w gilydd gan yr Athrofa, neu ar ei rhan, i gydweithredu ag aelodau staff ac ymddwyn yn briodol, yn gyfrifol ac â pharch a pheidio ag aflonyddu ar unrhyw berson, neu wahaniaethu ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gred, hil, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, i beidio â chamymddwyn (fel y'i diffinnir o bryd i'w gilydd gan God Ymddygiad Athrofa Padarn Sant) ac ymatal rhag achosi difrod i eiddo.

**5.10** Dim rhoi unrhyw rodd yn fwy na rhodd i ddangos gwerthfawrogiad i staff er mwyn allu sicrhau bod aelodau staff a dysgwyr yn cael eu hamddiffyn rhag cyhuddiad o lwgrwobrwyo.

**5.11** Rhoi gwybod i Athrofa Padarn Sant os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno i Athrofa Padarn Sant yn newid.

**5.12** Cadw at unrhyw amodau arbennig a nodir yn Llawlyfr y Rhaglen neu ddogfen debyg a gyhoeddwyd gan Athrofa Padarn Sant neu a roddwyd ar safle Moodle

Athrofa Padarn Sant (VLE) ar gyfer y Rhaglen, neu fel y'i hysbysir i chi fel arall gan Athrofa Padarn Sant.

**5.13** Mae pob un o ddysgwyr Athrofa Padarn Sant yn cael ei gyfrif e-bost ei hun. Bydd y cyfeiriad e-bost hwn neu safle Moodle Athrofa Padarn Sant (VLE) yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â dysgwyr. Cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau ei fod yn defnyddio'r safle Moodle a'i gyfrif e-bost **yn rheolaidd,** Bydd dysgwyr yn cael enw defnyddiwr a chyfrinair i gael mynediad at y safle Moodle. Darperir adnoddau a gwybodaeth hanfodol ar gyfer rhaglenni ar Moodle, ynghyd â negeseuon i roi gwybodaeth newydd, diweddariadau a negeseuon atgoffa. Mae hyn yn ffordd bwysig o gyfathrebu, yn enwedig i ddysgwyr sy'n astudio o bell. Ni fydd methu â chael mynediad at y safle Moodle ac e-bost dysgwyr Athrofa Padarn Sant yn cael ei dderbyn fel esgus dros beidio â chwblhau gwaith o fewn terfynau amser na bodloni unrhyw un o ofynion eraill y rhaglen sydd wedi'u hesbonio trwy Moodle. Mae Athrofa Padarn Sant yn gwerthfawrogi y gall fod yn bryder i ddefnyddio systemau TGCh newydd. Mae yna gefnogaeth ar gael i unrhyw ddysgwr sydd yn cael anhawster, ac mae sesiynau ar Moodle yn gael eu cynnwys fel rhan o'r cyfnod ymsefydlu.

## 6. Rhwymedigaethau Athrofa Padarn Sant

Mae Athrofa Padarn Sant yn cytuno i wneud y canlynol:

**6.1** Darparu gwybodaeth i ddarpar ddysgwyr er mwyn iddynt benderfynu a ydynt am dderbyn lle yn yr Athrofa ai peidio.

**6.2** Pan gollir astudiaeth drwy absenoldeb awdurdodedig, cymryd mesurau rhesymol i gefnogi'r dysgwr i wneud y gwaith a gollodd;

**6.3** Y bydd prosesau academaidd yn anghyfarwydd i lawer o ddysgwyr ar ddechrau'r cwrs a bydd yn cymryd yr holl gamau rhesymol i gefnogi dysgwyr, er enghraifft drwy sesiynau sgiliau astudio.

**6.4** Sicrhau bod polisïau, canllawiau a dyddiadau cau aseiniadau academaidd yn glir ac ar gael yn hawdd.

**6.5** Ymdrechu'n rhesymol i sicrhau bod staff Athrofa Padarn Sant yn ymddwyn yn briodol, yn gyfrifol a gyda pharch at bob unigolyn, ac nad ydynt yn aflonyddu ar unrhyw unigolyn nac yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth,

crefydd neu gred, hil, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, ac na fydd staff Padarn Sant yn camymddwyn (fel y'i diffinnir o dro i dro yng Nghod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant) nac yn achosi difrod i eiddo.

**6.6** Ymdrechu i ddarparu addysg ac adnoddau o ansawdd uchel i ddysgwyr.

**6.7** Sicrhau bod ei pholisïau anacademaidd yn deg, clir a hygyrch.

**6.8** Gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu amgylchedd ffisegol diogel i ddysgwyr.

## 7. Ffioedd a Thalu

**7.1** Bydd ffioedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Athrofa Padarn Sant cyn cofrestru ar unrhyw gwrs.

**7.2 Ymgeiswyr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig wedi ei noddi gan Esgob yn yr Eglwys yng Nghymru:**

Nid oes angen i ymgeiswyr dalu ffi uniongyrchol. Os ydy ymgeisydd yn dymuno parhau ei astudiaethau academaidd yn dilyn trwyddedu ( neu yn dilyn dileu nawdd gan yr Esgob,) daw'r ffi yn gyfrifoldeb yr ymgeisydd.

**7.3** Mae gwybodaeth lawn am y telerau ac amodau ar dalu ffioedd i'w gweld ym Mholisi Ffioedd a Chyllid Athrofa Padarn Sant, sy'n rhan o delerau ac amodau'r contract hwn.

**7.4** Os bydd y ffioedd yn parhau heb eu talu fis ar ôl y dyddiad cau, bydd hawl gan Athrofa Padarn Sant i gymryd camau i adennill y ddyled a/neu eich gwahardd o Athrofa Padarn Sant, atal unrhyw berfformiad pellach o'i rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn neu wrthod caniatáu i chi gamu ymlaen i unrhyw gam pellach o'r rhaglen, hyd nes bod yr holl symiau dyledus wedi'u talu neu fod trefniadau ar gyfer talu wedi'u gwneud y mae Athrofa Padarn Sant yn ystyried eu bod yn foddhaol. Mae unrhyw ddysgwr sydd ag anhawster gyda thaliadau yn cael ei annog i drafod gyda thiwtor cyn gynted a bo modd er mwyn i Athrofa Padarn Sant ystyried os oes angen rhoi prosesau talu arbennig yn eu lle.

**7.5** Er mwyn adlewyrchu newidiadau parhaus mewn costau, efallai y bydd angen i Athrofa Padarn Sant gynyddu ei ffioedd. Ar ôl cofrestru ar y rhaglen, bydd unrhyw gynnydd yn y ffioedd a godir arnoch chi yn rhesymol ac yn cael eu hysbysu ymlaen llaw. Mae'r cymal 7.5 ddim yn berthnasol i ymgeiswyr ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig wedi ei noddi gan Esgob yn yr Eglwys yng Nghymru.

**7.6** Nid oes ffioedd yn daladwy gan ddysgwyr sy'n astudio Cynllun Brentisiaeth Coleg Sir Gâr.

## 8. Polisïau Athrofa Padarn Sant

**8.1** Rhaid i ddysgwyr Athrofa Padarn Sant lynu wrth bolisïau'r sefydliad. Gellir dod o hyd i'r polisïau yn llawn ar wefan Athrofa Padarn Sant: https://www.stpadarns.ac.uk/cy/about/policies

**8.2** Gall polisïau gael eu diwygio o bryd i'w gilydd.

**8.3** Gellir terfynu eich dysgu gydag Athrofa Padarn Sant o ganlyniad i gamau disgyblu yn eich erbyn yn unol â Pholisi Disgyblu Athrofa Padarn Sant os byddwch chi'n torri unrhyw un o'r amodau hyn a bod y toriad yn un difrifol. Yn yr achosion hynny, bydd y Cytundeb hwn yn dod i ben yn awtomatig a gall eich cofrestriad fel dysgwr gael ei ganslo heb yr angen am unrhyw hysbysiad, oni bai bod Athrofa Padarn Sant yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

**8.4** Os cewch eich diswyddo o unrhyw sefydliad neu sefydliad heblaw Athrofa Padarn Sant y mae gofyn i chi fod yn bresennol ynddo neu fod yn aelod ohono fel rhan o'r Rhaglen, bydd hawl gan Athrofa Padarn Sant i roi terfyn ar y Cytundeb hwn ar unwaith trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i chi.

## 9. Atebolrwydd Athrofa Padarn Sant am Ddifrod

**9.1** Nid yw Athrofa Padarn Sant yn derbyn cyfrifoldeb, ac nid yw'n derbyn atebolrwydd, am y canlynol, ac fe'ch cynghorir i drefnu sicrwydd yswiriant priodol ar eu cyfer:

**9.1.1** Unrhyw golled neu ddifrod i'ch eiddo (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw gerbyd neu feic modur) tra bo'r eiddo hwnnw ar eiddo Athrofa Padarn Sant, oni bai ei fod wedi'i achosi gan esgeulustod Athrofa Padarn Sant neu ei weithwyr cyflogedig.

**9.1.2** Unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gennych o ganlyniad i ddefnyddio unrhyw offer cyfrifiadurol neu feddalwedd a ddarperir gan Athrofa Padarn Sant neu sydd ar gael i chi yno, gan gynnwys (ond heb gyfyngu ar natur gyffredinol yr amod hwn) unrhyw halogiad meddalwedd neu golli ffeiliau o ganlyniad i ddefnyddio offer neu feddalwedd Athrofa Padarn Sant.

**9.2** Nid oes unrhyw beth yn yr amodau hyn yn eithrio atebolrwydd Athrofa Padarn Sant am farwolaeth neu anaf personol a achoswyd gan esgeulustod Athrofa Padarn Sant, neu am gamliwio twyllodrus.

## 10. Terfynu Astudiaethau

**10.1** Gall methiant academaidd arwain at derfynu'r cytundeb hwn. Mae penderfyniadau ynghylch methiant academaidd yn cael eu gwneud gan y sefydliad achredu.

**10.2** Os yw'r dysgwr wedi cofrestru ar fwy nag un rhaglen e.e. os yw'n Ymgeisydd ar gyfer Gweinidogaeth ac yn astudio tuag at gymhwyster achrededig, bydd methiant academaidd yn arwain at derfynu'r contract hwn mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw. Ni fydd yn arwain yn awtomatig at derfynu'r holl raglenni y mae'r dysgwr wedi cofrestru arnynt.

**10.3** Os yw'r dysgwr wedi cofrestru ar fwy nag un rhaglen, gellir ystyried methiant academaidd mewn prosesau cysylltiedig, megis proses Ddisgyblu neu'r Gallu i Ymgymryd â Pholisi Astudio/Hyfforddi.

**10.4** Bydd terfynu astudiaethau am fethu â chydymffurfio â'r contract hwn, gan gynnwys cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Athrofa Padarn Sant, yn cael ei gwmpasu gan Bolisi Disgyblu'r Dysgwyr neu'r Gallu i Ymgymryd â Pholisi Astudio/Hyfforddi.

**10.5** Mae'r BTh/DipHE/CertHE ar gael I ymgeiswyr llawn maser sydd wedi eu noddi. Ac sy'n aratoi ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig â'r Eglwys yng Nghymru yn unig. O ganlyniad, os ydych yn ymgeisydd llawn amser ar gyfer y weinidogaeth a bod eich contract ar gyfer FFurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig yn dod I ben, byddwch hefyd yn cael eich tynnu o'r rhaglen BTh/DipHe/CertHe yn awtomatig. Yn yr achos yma, gall Athrofa Padarn Sant wneud trefniadau I drosgwlyddo chi I'r rhaglen BTh/DipHE/CertHE os ydych yn dymuno gwneud hynny.

**10.6** Os ydych chi'n dymuno terfynu'r contract hwn trwy dynnu'n ôl o raglen rhaid i chi gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'ch bwriad i dynnu'n ôl i'r Cofrestrydd neu Arweinydd y Rhaglen. Ar ôl derbyn hysbysiad, bydd y Cofrestrydd yn cysylltu â chi yn ysgrifenedig i'ch hysbysu am yr effaith y gallai tynnu'n ôl ei chael ar astudiaethau academaidd yn y dyfodol. Cewch drafod y goblygiadau gyda'r Cofrestrydd. Unwaith y bydd unrhyw oblygiadau wedi'u deall yn llawn, mae angen i chi gadarnhau i'r Cofrestrydd eich bod am barhau

i dynnu'n ôl. Gall y Cofrestrydd rhoi canllawiau ar sut i wneud hyn. Mae atebolrwydd am ffioedd yn achos tynnu'n ôl wedi'i nodi ym Mholisi Ffioedd a Chyllid Athrofa Padarn Sant.

**10.7** Os ydych chi am derfynu'r contract hwn trwy dynnu'n ôl o raglen heb ei hachredu, bydd angen i chi gysylltu ag arweinydd y rhaglen honno. I dynnu yn ôl o'r rhaglen Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth llawn amser yn golygu cael eich tynnu yn awtomatig o'r cwrs B.Th.  Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth llawn amser fel y nodir ym mhwynt 10.5.

**10.8** Mae'r rhaglen UKBHC ar gael I'r rheiny sy'n astudio PGCert, PGDip neu MA Caplaniaeth. Os ydych yn astudio y UKBHC ac yn dymuno I derfynnu eich contract, neu bod Athrofa Padarn Sant yn terfynu eich contract, ar gyfer rhaglenni PGCert, PGDip neu MA Caplaniaeth, yna byddwch yn cael eich tynnu yn awtomatig o'r rhaglen UKBHC yn ogystal.

## 11. Gofynion ar Derfynu'r Cytundeb hwn

**11.1** Os bydd Athrofa Padarn Sant yn terfynu'r Cytundeb hwn o ganlyniad i'w hawliau o dan yr amodau hyn neu yn gyffredinol neu os yw'r cytundeb hwn yn terfynu'n awtomatig:

**11.1.1** Bydd hawl gan Athrofa Padarn Sant i wrthod eich cofrestru ar y rhaglen, os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar ddyddiad y terfyniad.

**11.1.2** Bydd hawl gan Athrofa Padarn Sant i'w gwneud hi'n ofynnol i chi roi'r gorau i astudio ar y Rhaglen, ac i adael Athrofa Padarn Sant ar unwaith, os ydych chi eisoes wedi cofrestru ar ddyddiad y terfyniad.

**11.2** Ni fydd unrhyw gamau a gymerwyd gan Athrofa Padarn Sant o dan amodau 10.1.2 neu 10.1.3 yn cyfyngu ar allu Athrofa Padarn Sant i gymryd unrhyw gamau eraill yn eich erbyn.

**11.3** Ni fydd Athrofa Padarn Sant yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod o ba bynnag natur y byddwch yn ei ddioddef o ganlyniad i unrhyw gamau a gymerwyd yn eich erbyn gan Athrofa Padarn Sant i derfynu'r Cytundeb hwn neu gamau disgyblu gan Athrofa Padarn Sant (cyn belled â bod Athrofa Padarn Sant yn cymryd y camau priodol yn unol â'r amodau hyn neu weithdrefnau Athrofa Padarn Sant).

## 12. Hawl i Ganslo

**12.1** Mae gennych chi hawl i ganslo'r contract hwn o fewn 14 diwrnod heb roi unrhyw reswm. Bydd y cyfnod canslo hwn yn dod i ben 14 diwrnod ar ôl cwblhau'r contract. I arfer yr hawl hon i ganslo, rhaid i chi hysbysu Athrofa Padarn Sant mewn datganiad clir (h.y. trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) o'ch penderfyniad i ganslo'r contract hwn. Er mwyn gwneud hynny cyn y dyddiad terfyn ar gyfer canslo, mae'n ddigon i chi anfon eich gohebiaeth ynghylch arfer eich hawl i ganslo cyn i'r cyfnod canslo ddod i ben.

**12.2** Os byddwch chi'n canslo'r contract hwn, bydd Athrofa Padarn Sant yn ad-dalu'r holl daliadau a dderbyniwyd gennych o fewn 14 diwrnod i'r diwrnod y cafodd Athrofa Padarn Sant wybod am eich penderfyniad i ganslo. Bydd Athrofa Padarn Sant yn gwneud yr ad-daliad gan ddefnyddio'r un dull talu ag a ddefnyddiwyd gennych ar gyfer y trafodiad cychwynnol, oni bai eich bod wedi cytuno fel arall; beth bynnag, ni fyddwch yn gorfod talu unrhyw ffioedd o ganlyniad i'r ad-daliad.

## 13. Cyffredinol

**13.1** Os bydd unrhyw ddarpariaeth yn y telerau ac amodau hyn yn anghyfreithlon, yn annilys, yn ddi-rym neu'n anorfodadwy, ni fydd hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb, dilysrwydd na gorfodadwyedd y darpariaethau eraill.

**13.2** Bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall a wneir o dan y Cytundeb hwn yn ysgrifenedig ac yn cael ei gyfeirio atoch yn y cyfeiriad olaf a roddwyd gennych i Athrofa Padarn Sant, a bydd yn cael ei ystyried yn briodol pe bai wedi'i ddanfon â llaw pan y'i gadawyd yn y cyfeiriad hwnnw neu os caiff ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf rhagdaledig, 48 awr ar ôl cael ei bostio i'r cyfeiriad hwnnw.

**13.3** Os byddwch chi'n torri'r Cytundeb hwn a bod Athrofa Padarn Sant yn dewis peidio ag arfer unrhyw hawl a allai fod ganddi yn eich erbyn, ni fydd hynny'n rhwystro Athrofa Padarn Sant rhag cymryd camau yn eich erbyn yn y dyfodol mewn perthynas â'r toriad hwnnw neu unrhyw doriadau pellach gennych.

**13.4** Nid yw'r contract hwn yn rhoi unrhyw hawliau neu fuddion i drydydd parti (gan gynnwys rhieni myfyriwr) o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

**13.5** Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli ym mhob ffordd yn unol â deddfau Cymru a Lloegr, ac mae'r partïon yn cytuno i ymostwng i

awdurdodaeth gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr. Caiff Athrofa Padarn Sant gyflwyno trafodion mewn unrhyw lys arall sydd ag awdurdodaeth gymwys, ac ni fydd cyflwyno trafodion mewn unrhyw awdurdodaeth gan Athrofa Padarn Sant yn ei hatal rhag dwyn achos mewn unrhyw awdurdodaeth arall, boed hynny ar yr un pryd neu beidio, i'r graddau a ganiateir gan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall o'r fath.

**13.6** Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru rhif elusen cofrestredig 1142813 cyfeiriad cofrestredig 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT. Prif gyfeiriad Athrofa Padarn Sant yw 54 Heol Caerdydd, Caerdydd CF5 2YJ.

## 14. Diogelu Data

**14.1** Mae Athrofa Padarn Sant yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data perthnasol. Mae'r ffyrdd y caiff y data hwn ei storio a'i ddefnyddio wedi'u nodi yn https://www.churchinwales.org.uk/privacy-notice/ .

**14.2** O dan rai amgylchiadau, mae Athrofa Padarn Sant yn defnyddio data ar ffurf ffotograffau o sefyllfaoedd yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys myfyrwyr mewn ystafell ddosbarth, fel rhan o ddeunyddiau marchnata cyffredinol, er enghraifft, yn adroddiad blynyddol, prosbectws neu ddeunyddiau cwrs Athrofa Padarn Sant. Bydd data personol gyda ffotograffau yn cael eu defnyddio gyda chaniatâd penodol yn unig.

## Datganiad

Enw'r Myfyriwr:

Rhaglen(ni) Astudio:

Lefel:

Ffioedd sy'n Daladwy am y flwyddyn:

Rwyf i ________________________________________ yn cytuno i lynu wrth God Ymddygiad, contract dysgwyr, dogfennaeth a pholisïau Athrofa Padarn Sant sy'n ymwneud â rhwymedigaethau ariannol, a holl reoliadau a pholisïau Athrofa Padarn Sant fel y'u nodir ar wefan Athrofa Padarn Sant (www.stpadarns.ac.uk).

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn gywir, a byddaf yn rhoi gwybod i Athrofa Padarn Sant am unrhyw newidiadau.

Rwy'n deall bod Athrofa Padarn Sant yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl neu ganslo modiwl neu raglen lle bo angen.

Llofnod:

Dyddiad:

Mae gennych chi 14 diwrnod o dderbyn eich cynnig o le i arfer eich hawl i dynnu eich derbyniad yn ôl.